



Pwy ydym ni?

Prosiect a ariennir gan Fwrdd Iechyd addysgu Powys yw Cyngor Cleifion Powys (CCP); Tîm Iechyd Meddwl Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys sy'n ei hwyluso. Ei nod yw bod yn gyfrwng i bobl mewn unedau iechyd meddwl aciwt leisio eu barn.

Prosiect a reolir gan:



Diweddarwyd: 22 Hydref, 2014

Yr hyn a wnawn.

Rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd, cyfrinachol i gleifion yn unig mewn lleoliad preifat ar y ward gyda gwirfoddolwyr sydd wedi cael profiad o fod mewn ysbyty eu hunain.

Drwy hyn, rhoddir cyfle i bobl fynegi eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir iddynt, cyfle i ofyn cwestiynau ac i roi adborth yn hollol gyfrinachol.

Wedyn mae'r adborth yn cael ei drosglwyddo'n ddiennw i staff ac uwch reolwyr yr ysbytai er mwyn ceisio datrys unrhyw broblemau.

Sut i gyfrannu

Mae'r cyfarfodydd yn gyfeillgar ac yn anffurfiol.

Dewch i'r cyfarfod nesaf, neu os byddai'n well gennych, gallwch lenwi ffurflen adborth a'i hanfon atom.

Pryd mae'r cyfarfodydd?

Rydym yn cwrdd unwaith y mis, fel arfer ar 3ydd dydd Mercher y mis. Cyhoeddir dyddiadau ar ein gwefan neu ar hysbysfwrdd yr ysbyty.

Materion Arbenigol

Nid yw CCP yn delio gyda materion arbenigol ei hun, ond gallwn eich cyfeirio at eiriolwr fydd yn gallu helpu.

Sut i gysylltu â ni

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

*Freda Lacey
Cydlynnydd y Prosiect
Cyngor Cleifion Powys
PAVO
Rhadbost Nat 4325
Llandrindod
Powys LD8 2TN*

Freda.Lacey@pavo.org.uk

**01597 822191
neu
07941 626225**